# Crynodeb o Asesiad Effaith Integredig Llywodraeth Cymru

**Teitl y cynnig:**

| |
|---|
| **Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 a Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020** |

**Adran:**

| |
|---|
| **Iechyd a Gwasanaethau Gofal** |

**Gweinidog cyfrifol:**

| |
|---|
| **Y Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** |

**Dyddiad Dechrau:**

| |
|---|
| **Ebrill 2020** |

**Cyfeiriad cyswllt e-bost:**

| |
|---|
| *PlantSynDerbynGofal@llyw.cymru (Y Gangen Plant sy'n Derbyn Gofal)* |

# Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham?

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf rydym wedi gweld fframwaith cyfreithiol newydd wedi'i gydgrynhoi yn cael ei greu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru wrth i ddau ddarn hanesyddol o ddeddfwriaeth gael eu pasio.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014"), a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2016, yn sefydlu fframwaith newydd sy'n dwyn ynghyd ac yn moderneiddio'r gyfraith sy'n ymwneud â'r rhan fwyaf o wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol yng Nghymru.

Cafodd Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") y Cydsyniad Brenhinol ar 18 Ionawr 2016. Mae'n nodi'r fframwaith statudol newydd ar gyfer rheoleiddio ac arolygu gwasanaethau gofal cymdeithasol ac yn diwygio trefniadau rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru. Felly, mae'n disodli systemau perthnasol a roddwyd ar waith yn flaenorol o dan Ddeddf Safonau Gofal 2000. Mae'r ddwy Ddeddf hon yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth ar waith drwy wneud rheoliadau, yn ogystal â chyhoeddi canllawiau statudol a chyflwyno codau ymarfer.

O ran mabwysiadu, mae'r prosesau'n cael eu llywodraethu'n bennaf gan Ddeddf Mabwysiadu 1976 ac, yn arbennig Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 ("Deddf 2002"), sydd hefyd yn darparu nifer o bwerau gwneud rheoliadau.

Fel rhan o'r rhaglen hon o ddiwygio cyfraith gofal cymdeithasol, y bwriad yw y bydd Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) 2020 ("y Rheoliadau Diwygio") yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005"). Byddant yn gwneud hyn drwy roi Rhan 4 newydd yn lle'r hen Ran 4, sy'n gwneud darpariaeth ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr gan asiantaethau mabwysiadu. Mae'r Rheoliadau Diwygio hefyd yn diwygio Rheoliadau 2005 er mwyn cyflwyno proses newydd dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo. Yn ystod Cam Un (y broses cyn-asesu, sydd wedi'i chyfyngu i gyfnod o ddau fis), cynhelir yr holl wiriadau rhagnodedig, gan gynnwys gwiriadau iechyd a gwiriadau cofnodion troseddol. Yn ystod Cam Dau (y penderfyniad asesu, sydd wedi'i gyfyngu i gyfnod o bedwar mis), mae'r asiantaeth fabwysiadu'n dod i benderfyniad ynglŷn â pha mor addas yw'r darpar fabwysiadwyr.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2020, ("Rheoliadau Rhif 2") yn gosod gofyniad ychwanegol ar asiantaethau mabwysiadu, wrth asesu pa mor addas yw cwpl i fabwysiadu plentyn yn ystod cam dau o'r broses, i roi sylw priodol i'r angen am sadrwydd a sefydlogrwydd yn eu perthynas.

Bydd y Rheoliadau Diwygio hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio plentyn at Gofrestr Fabwysiadu Cymru cyn pen un mis i'r dyddiad y cafodd yr asiantaeth fabwysiadu ei hawdurdodi i leoli'r plentyn i'w fabwysiadu. Bydd gofyn iddynt hefyd atgyfeirio darpar fabwysiadwr at y Gofrestr Fabwysiadu cyn pen un mis i'r dyddiad y cadarnhaodd yr asiantaeth bod y darpar fabwysiadwr yn addas i fabwysiadu plentyn.

Mae'r rheoliadau hyn yn rhan o Gam 3 o'r broses o roi Deddf 2016 ar waith. Mae Cam 3 hefyd yn ymdrin â gwasanaethau eiriolaeth, gwasanaethau lleoli oedolion a

maethu. O ran mabwysiadu, effaith hyn yw y bydd y rhannau sydd ar ôl o Reoliadau Gwasanaethau Maethu (Cymru) 2003, a’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol cysylltiedig, yn cael eu disodli. Cam 3 yw’r rhan olaf o raglen fawr gan Lywodraeth Cymru i adolygu deddfwriaeth gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru a’i chydgrynhoi. Cychwynnodd y broses honno gyda Phapur Gwyn 201 Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy. Gellir dod o hyd i’r rhesymeg ar gyfer y rhaglen ddeddfwriaethol hon yn yr Asesiadau Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Deddfau 2014 a 2016. Bydd y dull y dylid ei ddilyn mewn perthynas â mabwysiadu yn cael ei nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy’n mynd gyda’r rheoliadau a’r canllawiau / cod ymarfer perthnasol.

# Casgliadau

1. Sut y mae’r bobl y mae’r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt wedi’u cynnwys yn y gwaith o’i ddatblygu?

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y rheoliadau hyn dros gyfnod o 12 wythnos, rhwng 3 Hydref 2018 a 9 Ionawr 2019. Mae rhagor o wybodaeth am y broses ymgynghori wedi’i nodi yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a osodwyd gyda’r Rheoliadau. Cafodd Grŵp Technegol ei sefydlu i roi cyngor ar y broses o ddatblygu’r rheoliadau a’r canllawiau statudol a fydd yn mynd gyda’r rheoliadau hyn. Mae’r grŵp hwnnw’n cynnwys darparwyr gwasanaeth mabwysiadu a rhanddeiliaid eraill.

Cynhaliwyd dau ddigwyddiad ymgynghori, un yn y Gogledd ac un yn y De. Roedd amrywiaeth o sefydliadau o’r sector cyhoeddus, y sector preifat, y sector gwirfoddol a’r trydydd sector yn bresennol, gan gynnwys nifer o ddarparwyr gwasanaeth.

2. Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Nod y Rheoliadau hyn yw diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn darparu ar gyfer proses dau gam ar gyfer asesu a chymeradwyo darpar fabwysiadwyr. Byddai'r newid hwn yn galluogi asiantaeth fabwysiadu i wneud penderfyniad yn gynnar i "beidio â pharhau" â chais llawn unigolyn i fod yn fabwysiadwr. Bydd y rheoliadau hyn hefyd yn:

- Ei gwneud yn ofynnol i asiantaethau mabwysiadu atgyfeirio gwybodaeth am bob darpar fabwysiadwr at Gofrestr Fabwysiadu Cymru ar ôl iddo gael ei gymeradwyo. Byddant hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i wybodaeth gael ei hatgyfeirio am bob plentyn y mae penderfyniad wedi cael ei wneud i'w leoli i'w fabwysiadu at y Gofrestr Fabwysiadu, cyn pen mis i'r dyddiad y cafodd y penderfyniad terfynol ei wneud.

- Diwygio rheoliad 20 o Reoliadau 2005, i'w gwneud yn glir y gall asiantaeth fabwysiadu ofyn i CAFCASS Cymru benodi swyddog i gael cydsyniad gan riant neu warcheidwad i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal ond pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw yng Nghymru a Lloegr.

- Cyflwyno rheoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu drefnu i benodi 'person awdurdodedig' i fod yn dyst pan fydd rhiant neu warcheidwad yn cydsynio i leoli neu fabwysiadu plentyn yn ei ofal pan fo'r rhiant neu'r gwarcheidwad yn byw y tu allan i Gymru a Lloegr.

Mae Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2019 yn cadw'r gofyniad ar asiantaeth fabwysiadu i roi sylw i'r angen am sadrwydd a sefydlogrwydd ym mherthynas cwpl sy'n ceisio mabwysiadu. Maent hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i asiantaeth fabwysiadu gynnwys yr wybodaeth hon yn adroddiad yr asiantaeth sy'n ystyried pa mor addas yw'r darpar fabwysiadwyr i fabwysiadu.
Mae'r broses bresennol ar gyfer cymeradwyo darpar fabwysiadwr yn aml yn rhy hir a gall fod yn fiwrocrataidd ac yn anhyblyg. Gall hyn beri i lawer o fabwysiadwyr beidio â chwblhau'r broses. Bydd y system dau gam o fudd iddynt drwy gyflymu'r broses rhwng yr ymholiad cychwynnol a'r asesiad ac yn gwella ansawdd y gwasanaeth i'r darpar fabwysiadwyr, a'u profiad. Bydd y broses dau gam (yn y mwyafrif o achosion) hefyd yn caniatáu i ofalwyr maeth ac unigolion sy'n mabwysiadu am yr ail dro hepgor cam un a symud yn syth ymlaen i ail gam y broses. Bydd hyn yn caniatáu iddynt gael asesiad wedi'i deilwra'n arbennig ar eu cyfer (wedi'i bennu ar gyfer pob cais yn unigol) a fydd yn cynnwys unrhyw hyfforddiant angenrheidiol arall. Diben mabwysiadu'r darpariaethau hyn yw lleihau biwrocratiaeth ddiangen ond parhau i gynnal lefelau diogelu priodol.

3. Yng ngoleuni'r effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:

- yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl tuag at gyflawni ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,
- yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?

Cymru lewyrchus – effaith niwtral

Cymru gydnerth – effaith niwtral

Cymru iachach – bydd y cynigion yn cael effaith gadarnhaol fach ar iechyd meddwl a ffordd o fyw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mabwysiadu o dan adrannau 174 a 176 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, drwy wella'r broses o reoleiddio'r gwasanaethau a ddarperir.

Cymru fwy cyfartal – mynediad at wasanaethau mabwysiadu rheoleiddiedig, o ansawdd uchel, a fydd yn galluogi grwpiau sy'n cael eu heffeithio i gyflawni eu potensial.

Cymru lle y mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu – effaith niwtral

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang – effaith niwtral

Bydd y Cynnig yn sicrhau bod yr wybodaeth a'r dogfennau a ddarperir yn galluogi Arolygiaeth Gofal Cymru i wneud penderfyniad llawn ar sail gwybodaeth fanwl wrth ystyried a yw ymgeisydd yn addas i reoli gwasanaeth. Mae hyn yn gwella gallu'r Arolygiaeth i sicrhau nad yw darparwyr gwasanaeth gwael yn cael eu cofrestru ac o ganlyniad yn amddiffyn pobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau felly.

4. Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei fonitro a'i werthuso wrth iddo fynd rhagddo a phan gaiff ei gwblhau?

Bydd swyddogion yn monitro'r broses o weithredu'r cynnig drwy ymgynghori â'r sector a chydag Arolygiaeth Gofal Cymru, er mwyn sicrhau bod y gwasanaeth a ddarperir yn parhau i fod yn gadarn. Yn ogystal â hynny, bydd canlyniadau'r Rheoliadau hyn yn cael eu mesur fel rhan o'r rhaglen waith ehangach er mwyn mesur canlyniadau Deddf 2016.